**Adroddiad i'r:** **Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **21 Mai 2014**

**Aelod/Swyddog Arweiniol:** **Barbara Smith - Aelod Arweiniol dros Foderneiddio a Pherfformiad**
**Ivan Butler - Pennaeth Archwilio Mewnol**

**Awdur yr Adroddiad:** **Ivan Butler - Pennaeth Archwilio Mewnol**

**Teitl: Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol 2013-14**

---

## 1. Am beth mae’r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn darparu’r Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol i’r Pwyllgor ar gyfer 2013-14 sy'n rhoi barn gyffredinol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu, risg a rheolaeth y Cyngor yn ystod y flwyddyn sy'n llywio'r 'datganiad llywodraethu blynyddol'.

## 2. Beth yw’r rheswm dros lunio’r adroddiad hwn?

Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) yn ei gwneud yn ofynnol i’r 'prif weithredwr archwilio' ddarparu barn archwilio mewnol blynyddol ac adroddiad y gall y sefydliad ei ddefnyddio i lywio ei ddatganiad llywodraethu. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor hwn yn ei wneud yn ofynnol iddynt ystyried adroddiad blynyddol yr archwilwyr mewnol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Mae'r Pwyllgor yn ystyried ac yn rhoi sylwadau ar adroddiad blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol a’r ‘farn’ gyffredinol.

## 4. Manylion am yr Adroddiad

Mae Adroddiad Archwilio Mewnol 2013-14 wedi’i gynnwys yn Atodiad 1 ac yn dangos:

- bod y Pennaeth Archwilio Mewnol wedi rhoi ‘sicrwydd canolig’ yn nigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol amgylchedd rheolaeth fewnol y Cyngor, gan gynnwys ei drefniadau ar gyfer llywodraethu a rheoli risg;
- nid oes unrhyw beth ynghlwm wrth ‘farn' y Pennaeth Archwilio Mewnol;
- lefel y gwaith a wnaeth yr Archwilwyr Mewnol i gyrraedd y 'farn' gyffredinol;
- sut y mae Archwilio Mewnol yn cydymffurfio â'r PSIAS; a
- chrynodeb o berfformiad da Archwilio Mewnol yn ystod y flwyddyn.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Nid yw'r adroddiad hwn yn cyfrannu yn uniongyrchol at y Blaenoriaethau Corfforaethol, ac nid oes angen penderfyniad.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes unrhyw gostau ynghlwm â'r adroddiad hwn, gan ei fod er gwybodaeth yn unig.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd am y penderfyniad? Dylid cynnwys yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd fel atodiad i'r adroddiad.**

Nid oes angen penderfyniad neu gynnig ar gyfer newid ar gyfer yr adroddiad hwn, felly nid oes unrhyw effaith ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig.

**8. Pa ymgynghori a wnaed gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Nid oes unrhyw ofyniad i ymgynghori ar yr adroddiad hwn, gan ei fod yn darparu 'barn' annibynnol a gwrthrychol y Pennaeth Archwilio Mewnol.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ynghlwm â'r adroddiad hwn, gan ei fod er gwybodaeth yn unig.

**10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Nid oes unrhyw gostau ynghlwm â'r adroddiad hwn, gan ei fod er gwybodaeth yn unig.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Nid oes angen gwneud penderfyniad ar gyfer yr adroddiad hwn, ond mae gofyniad dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 i'r 'pwyllgor archwilio' adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol a threfniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor a goruchwylio trefniadau archwilio mewnol y Cyngor.